This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

GWEITHDREFN YMDDYGIAD MYFYRWYR 2023/2024

Teitl: Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr					
Fersiwn	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Disgrifiad o'r Adolygiad**	**Awdur**	**Cymeradwywyd Gan a'r Dyddiad**	**Dyddiad Adolygu Nesaf**
1.0	Medi 2019	Rhifyn Cyntaf	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 4 Awst 2019	Mehefin 2020
2.0	Medi 2020	Ail Rifyn	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd/Bwrdd y Llywodraethwyr 6 Gorffennaf 2020	Mehefin 2021
3.0	Medi 2021	Trydydd Rhifyn	Charlotte Lawrence	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 19 Mai 2021	Mehefin 2022
4.0	Medi 2023	Pedwerydd Rhifyn	Siobhan Coakley	Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2024

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

DEHONGLIAD:

Dylid dehongli rolau'r Brifysgol, lle nodir, fel y rôl neu'r rôl gyfatebol at ddibenion cymhwyso'r weithdrefn.

ADRAN UN: CYFLWYNIAD

1.1 Dylid darllen y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr ar y cyd â'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr, sy'n manylu ar ddisgwyliadau o ran ymddygiad.

1.2 Y Weithdrefn sy'n berthnasol fydd y Weithdrefn sydd ar waith yn ystod y flwyddyn y derbynnir yr honiad.

1.3 Ymdrinnir â materion ymddygiad myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gwrs yn arwain at gofrestriad proffesiynol a/neu drwydded i ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol o dan Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer y Brifysgol.

1.4 Mae cyfeiriadau at 'brentis' drwy gydol y weithdrefn hon yn cyfeirio at brentisiaid/myfyrwyr Plismona Gweithredol. Bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn penderfynu a ddylai unrhyw honiad/ymchwiliad parhaus ar gyfer prentisiaid ar gyrsiau eraill gael ei adrodd i'r cyflogwr.

1.5 Bydd achosion o dorri'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr gan brentisiaid ar gyrsiau plismona/myfyrwyr Plismona Gweithredol yn cael eu hadrodd i gyflogwr y prentis/Myfyriwr Plismona Gweithredol gan Ddeon y Gyfadran (neu enwebai). Gweithdrefnau'r heddlu perthnasol fydd yn cael blaenoriaeth. Ni fydd unrhyw ymchwiliad o dan Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol yn cael ei gynnal nes bod canlyniad ymchwiliad yr heddlu yn hysbys.

1.6 Gellir ymdrin ag achosion o dorri Cod Ymddygiad Myfyrwyr gan fyfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff y Brifysgol o dan weithdrefnau disgyblu Adnoddau Dynol.

ADRAN DAU: EGWYDDORION CYFFREDINOL

2.1 Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i ddarparu amgylchedd sy'n ddiogel, yn barchus ac yn oddefgar. O ganlyniad, disgwylir bod myfyrwyr, eu cynrychiolwyr ac aelodau staff yn ymddwyn yn rhesymol ac yn deg tuag at ei gilydd, ac yn parchu'r broses.

2.2 Penderfynir ar ganlyniad unrhyw wrandawiad disgyblu neu adolygu ar sail yr hyn sy'n debygol[1], yn ôl cred resymol fod yr honiad yn fwy tebygol o fod yn wir nac yn anwir. Mae baich y prawf yn penderfynu pwy sy'n gyfrifol am brofi mater. Mewn perthynas â honiadau ymddygiad myfyrwyr, y Brifysgol sy'n gyfrifol am faich y prawf.

2.3 Wrth roi'r Weithdrefn hon ar waith, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael ei hysbysu am yr achos yn ei erbyn, ac yn cael cyfle priodol i ymateb i'r achos hwnnw cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

[1] Mae hyn yn golygu bod yr amgylchiadau yn fwy tebygol na pheidio o fod wedi digwydd. Mae hon yn safon is nag 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

2.4 Os bydd y Parti sy'n Adrodd neu unrhyw dystion (sy'n fyfyrwyr yn y Brifysgol) yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r Weithdrefn, efallai y gallant gyflwyno cwyn trwy ddefnyddio'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr.

2.5 Gall myfyrwyr gredu o bryd i'w gilydd bod ganddynt achos i gwyno am ymddygiad myfyriwr arall tuag atynt, sydd wedi effeithio arnyn nhw yn bersonol. Pan na fydd y materion dan sylw yn cael unrhyw effaith ar weithgareddau'r Brifysgol, nid ymdrinnir â nhw o dan y Weithdrefn hon.

2.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod datblygiadau mewn technoleg fodern yn ei gwneud hi'n haws i bobl wneud recordiadau cudd h.y. recordiadau o gyfarfodydd neu sgyrsiau a wneir heb ganiatâd y cyfranogwyr. Mae'n debyg y bydd recordio galwadau ffôn yn groes i Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000/ Deddf Pwerau Ymchwiliol 2016 (fel y bo'n briodol). Os caiff cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu recordio, mae'n debyg y bydd y deunydd a gesglir yn cael ei ddal yn groes i hawl Erthygl 8 y cyfranogwr (i fywyd preifat a bywyd teuluol) o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a chyfreithiau diogelu data y DU. Am y rheswm hwn, ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i recordiadau cudd gael eu defnyddio i ategu cwynion, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol

Yn ogystal, dim ond at y diben y cafodd ei wneud y dylid defnyddio recordiad ac ni ddylai fod ar gael i drydydd parti heb gydsyniad yr unigolyn y mae'n cyfeirio ato, oni bai bod rheswm cyfreithlon i wneud hynny.

Am y rhesymau hyn, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y Brifysgol yn caniatáu defnyddio recordiadau o'r fath mewn achosion ymddygiad myfyrwyr.

Y ffeithiau a ystyrir yw:

- I ba raddau y mae'r dystiolaeth yn berthnasol i faterion yr achos, gan gynnwys ystyried natur y dystiolaeth ac a oes tystiolaeth arall, gryfach, ar gael.
- I ba raddau y casglwyd y dystiolaeth yn anghyfreithlon neu y bydd defnyddio'r dystiolaeth yn ymyrryd fel arall â hawliau preifatrwydd.
- I ba raddau y gellir dibynnu ar y dystiolaeth o safbwynt technegol o ystyried ei bod hi'n bosibl ffugio deunydd wedi'i recordio. Mae'n bosibl y gall darparu adysgrif wedi'i chreu'n annibynnol o unrhyw recordiad fod o gymorth i gwrdd â'r gofyniad hwn.

2.7 Pan gaiff honiad o gamymddygiad ei wneud yn erbyn grŵp o fyfyrwyr, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch p'un a yw'n fwy priodol ystyried yr achos fel grŵp neu p'un a ddylid ystyried pob achos yn unigol. Pan gaiff achos ei ystyried fel grŵp, rhoddir cyfle i bob Myfyriwr sy'n Ymateb gyfarfod â'r Swyddog Ymchwilio, ac os bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at wrandawiad, cyflwyno sylwadau ysgrifenedig, ac yn y gwrandawiad, cyflwyno eu hachos yn unigol. Bydd copi o'r dystiolaeth yn cael ei roi i bob Myfyriwr sy'n Ymateb i'w hystyried, ac ystyrir eu hamgylchiadau unigol wrth wneud penderfyniadau. Pan fydd Pwyllgor Disgyblu yn clywed pob achos yn unigol, bydd aelodau'r Pwyllgor yr un fath ar gyfer pob gwrandawiad.

2.8 Bydd honiad(au) newydd neu ddiwygiedig sy'n cael eu gwneud, neu sy'n dod i'r amlwg, yn ystod ymchwiliad, yn cael ei gyfleu/eu cyfleu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn ysgrifenedig. Rhoddir cyfle i'r Myfyriwr sy'n Ymateb roi sylwadau ar yr honiad(au) newydd/diwygiedig a bydd unrhyw sylwadau'n cael eu rhannu â'r holl bartïon perthnasol.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

2.9 Mae gan fyfyriwr sy'n destun honiad yr hawl i gael gwybod am yr honiadau hynny ac ymateb iddynt fel y gallant amddiffyn eu hunain. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud honiad dderbyn y bydd ei ddatganiad a'i dystiolaeth ategol yn cael eu darparu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb. O ganlyniad, ni fydd y Brifysgol yn derbyn honiadau a wneir yn ddienw. Yn ogystal, ni fydd y Brifysgol fel arfer yn ystyried datganiadau tystion, lle mae'r tyst yn mynnu ei fod yn aros yn anhysbys. Y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu ystyried honiad/datganiad tyst dienw, ar y cyd â staff perthnasol fel y bo'n briodol.

2.10 Bydd y Brifysgol yn rhannu gyda'r Parti sy'n Adrodd ganfyddiadau a chosbau perthnasol dim ond pan fyddant yn effeithio'n uniongyrchol ar y Parti sy'n Adrodd.

2.11 Mae manylion am gyfrifoldebau ar gyfer cyfathrebu ar bob lefel o'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfathrebu.

2.12 Mae rhestr o enghreifftiau ***anghyflawn*** o gamymddygiad posibl wedi'i chynnwys yn y Cod Ymddygiad ac yn adran 5.1 a 6.1 y Weithdrefn hon.

2.13 Mae gan y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yr awdurdod i gymeradwyo diwygiadau i gyfansoddiad y panel os oes angen.

2.14 Dylid dwyn honiadau o gamymddygiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ac fel rheol heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl yr achos olaf gan arwain at yr honiad o gamymddygiad. Yr eithriad i'r amserlen arferol o dri mis yw ar gyfer unrhyw achos sy'n ymwneud â honiad o gamymddygiad sydd hefyd yn drosedd (gweler adran 6.7-6.10) neu oni bai bod rheswm da pam na ddygwyd yr honiad o gamymddygiad o fewn tri mis.

2.15 Gellir sefydlu cytundeb gwirfoddol ar y cyd rhwng myfyrwyr (Cytundeb Dim Cyswllt (NCA)) i gyfyngu ar y tebygolrwydd o gysylltiad rhyngddynt, ac eithrio'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gweithgareddau academaidd, cyn neu yn ystod gweithrediad y Weithdrefn hon. Nid yw NCA yn ganfyddiad o gyfrifoldeb am dorri Cod Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol.

2.16 Os oes unrhyw amwysedd ynghylch pa weithdrefn y dylid ei defnyddio oherwydd natur yr honiad, bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cysylltu â Deon y Gyfadran (neu enwebai) cyn penderfynu ar y weithdrefn briodol. Gallai enghraifft o hyn fod pan fo elfennau yn yr honiad y byddai'n fwy priodol eu hystyried o dan y Weithdrefn Camymddygiad Academaidd. Os oes mwy nag un weithdrefn yn berthnasol a bod angen dilyn un cyn y llall, gellir defnyddio canlyniad y gyntaf i lywio'r weithdrefn/gweithdrefnau dilynol.

ADRAN TRI: CYNGOR A CHYMORTH

3.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu lles emosiynol, meddyliol a chorfforol pawb sy'n gysylltiedig â gweithrediad ei Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

3.2 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi arweiniad awdurdodol, ffurfiol ar sut mae'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr yn cael eu cymhwyso a'u gweithredu.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

Cyngor a chymorth i fyfyrwyr

3.3 Cydnabyddir y gall gwneud honiad o gamymddygiad, neu fod yn destun honiad o gamymddygiad, gael effaith niweidiol ar les myfyrwyr. Gellir cael cyngor a chymorth gan y canlynol:

Undeb y Myfyrwyr - http://su.southwales.ac.uk/
Gwasanaethau Myfyrwyr - https://advice.southwales.ac.uk/a2z/student
Y Gaplaniaeth - http://chaplaincy.southwales.ac.uk/
Cyngor Mewnfudo a Myfyrwyr Rhyngwladol - https://intadvice.southwales.ac.uk/

3.4 Bydd Myfyriwr sy'n Adrodd a'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael eu cyfeirio i'r Ganolfan Gyngor ac at Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol, os oes rheswm dros gredu bod yr achos wedi effeithio ar eu hastudiaethau academaidd.

3.5 Caniateir i'r Myfyriwr sy'n Ymateb a'r Parti sy'n Adrodd gael unigolyn cymorth gydag ef/gyda hi mewn unrhyw drafodaethau, cyfarfodydd neu wrandawiadau; er enghraifft swyddog o Undeb y Myfyrwyr neu ffrind. Rôl yr unigolyn cymorth yw darparu cymorth yn ystod y cyfarfod. Fel rheol, nid cynrychioli'r myfyriwr, eirioli ar ei ran na siarad drosto yw ei rôl, oni chytunwyd ar hyn fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd. Ni all y myfyriwr anfon unrhyw un arall i'r cyfarfod ar ei ran. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, rhaid iddo roi gwybod i'r Brifysgol beth yw enw a statws yr unigolyn sy'n mynd gydag ef i'r cyfarfod. Argymhellir yn gryf y dylai myfyrwyr geisio cymorth gan Undeb y Myfyrwyr neu Gaplaniaeth y Myfyrwyr, gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

3.6 Mae'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod cais i unigolyn cymorth fod yn bresennol os penderfynir bod achos o wrthdaro buddiannau yn gysylltiedig â'r unigolyn a enwebwyd. Yn yr achos hwn, bydd y myfyriwr yn cael cyfle i enwebu unigolyn cymorth gwahanol.

3.7 Nid yw gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur ac o ganlyniad, ni ddylai fod angen i chi gael person cymorth cyfreithiol cymwys neu gynrychiolydd mewn gwrandawiadau/cyfarfodydd. Fodd bynnag, gallwch geisio cyngor rhagarweiniol, heb ragfarn, ar gwmpas a natur y dystiolaeth y bwriadwch ei chyflwyno i gefnogi achos sy'n arbennig o gymhleth.

3.8 Er nad oes gan fyfyrwyr hawl awtomatig i berson cymorth cyfreithiol neu gynrychiolydd, os ydynt yn dymuno cael eu cefnogi/cynrychioli mewn gwrandawiad/cyfarfod, rhaid iddynt wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac. uk) o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad/cyfarfod a drefnwyd. Rhaid i'r myfyriwr gynnwys yn ei sylwadau enw'r cynrychiolydd arfaethedig a'r rhesymeg dros ei gais.

3.9 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod cais am berson cymorth cyfreithiol neu gynrychiolydd i fynychu unrhyw gyfarfodydd/gwrandawiadau, yn dibynnu a ddarperir rheswm da a chymhlethdod a difrifoldeb yr achos. Pe bai cais o'r fath yn cael ei gymeradwyo, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael person/cynrychiolydd â chymhwyster cyfreithiol yn bresennol hefyd. Bydd personau cymorth/cynrychiolwyr sydd â chymwysterau cyfreithiol yn cael eu hysbysu'n glir o natur yr achos, h.y. nad ydynt yn broses gyfreithiol ac na fyddant yn cael eu cynnal felly.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

Ffactorau lliniarol

3.10 Bydd y Brifysgol yn ystyried ffactorau lliniarol wrth benderfynu ar gosb mewn perthynas â honiadau a ategwyd.

3.11 Dylai'r Myfyriwr sy'n Ymateb hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ffactorau lliniarol y mae'n dymuno iddynt gael eu hystyried.

3.12 Mae enghreifftiau o ffactorau lliniarol y gall y Brifysgol eu hystyried yn cynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt):

- cyfaddef i weithredoedd, a dangos edifeirwch diffuant amdanynt;
- pan gaiff gweithred ei chyflawni heb roi ystyriaeth ddigonol i'r effaith/canlyniadau, yn hytrach nag yn faleisus;
- effaith afiechyd;
- amgylchiadau personol eithafol.

3.13 Mewn rhai achosion, gall y Brifysgol benderfynu gohirio'r Weithdrefn hon, hyd nes ceir cyngor pellach, neu gall gyfeirio'r Myfyriwr sy'n Ymateb i'r Weithdrefn Cymorth i Astudio.

Cyngor a chymorth i staff

3.14 Cydnabyddir y gall ymdrin â materion ymddygiad myfyrwyr roi staff o dan bwysau. Mae'r Brifysgol yn cynnig Cynllun Cymorth i Staff, y gellir cael manylion amdano ar y wefan Adnoddau Dynol. Yn ogystal, mae gan y Gaplaniaeth gryn brofiad o ymdrin â materion sensitif ac mae ar gael i gynnig cyngor a chymorth cyfrinachol ffurfiol ac anffurfiol.

ADRAN PEDWAR: COSBAU

4.1 Gellir ystyried a chymhwyso diwygiadau i'r cosbau hyn fel addasiad rhesymol yn dibynnu ar anghenion unigol y myfyriwr.

Ymddiheuriad ysgrifenedig

4.2 Gall fod yn ofynnol i'r Myfyriwr sy'n Ymateb ysgrifennu ymddiheuriad ysgrifenedig; gallai hyn fod i'r unigolyn perthnasol, neu i'r Brifysgol. Os bydd y Brifysgol yn anfodlon â'r ymddiheuriad, gellir gofyn i'r Myfyriwr sy'n Ymateb ei ailysgrifennu neu gellir cyfeirio'r achos yn ôl ar gyfer gweithredu pellach o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

Rhybuddion Ffurfiol

4.3 Mae tri chategori o rybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y camymddygiad.

a) Rhybudd llafar
b) Rhybudd ysgrifenedig ffurfiol – bydd yn aros ar gofnod am gyfnod penodol o flwyddyn, fel rheol. Gall unrhyw achosion o gyflawni trosedd dro ar ôl tro arwain at wneud argymhelliad i'r Is-Ganghellor, neu'i enwebai, y dylid cyfeirio'r Myfyriwr sy'n Ymateb at Bwyllgor Disgyblu.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

c) Rhybudd ysgrifenedig terfynol – gall Pwyllgor Disgyblu ymdrin yn uniongyrchol ag unrhyw achosion pellach o gamymddygiad, a bydd y drosedd brofedig yn cael ei hystyried wrth benderfynu ar gosb.

Costau

4.4 Gall fod angen i'r Myfyriwr sy'n Ymateb dalu i wneud iawn am unrhyw ddifrod y mae wedi'i achosi o hyd at £1000. Rhaid talu'r arian hwn i berchennog neu feddiannwr yr eiddo a ddifrodwyd. Rhoddir ystyriaeth i sefyllfa ariannol y Myfyriwr sy'n Ymateb ac mae'n bosib y gellir rhoi amser ar gyfer talu'r swm mewn rhandaliadau penodedig.

Cyfyngiadau/amodau

4.5 Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Disgyblu yn gosod cyfyngiadau neu amodau ar y Myfyriwr sy'n Ymateb dan lefel 1 neu lefel 2 y Weithdrefn hon. Er enghraifft: ceisio cymorth gan y Gwasanaethau Myfyrwyr; dim cyswllt uniongyrchol â myfyriwr arall (Gorchymyn Dim Cyswllt (NCO)). Gellir cyfeirio'r myfyriwr at raglen addysgol, lle ystyrir bod hyn er budd y myfyriwr.

Gwahardd

4.6 Mae gan y Pwyllgor Disgyblu'r awdurdod i wahardd y Myfyriwr sy'n Ymateb o gampysau penodol, ardaloedd penodol o gampws, megis Undeb y Myfyrwyr, Neuaddau Preswyl neu'r Neuadd Chwaraeon. Mewn achosion o'r fath, bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb fel arfer yn cael mynychu'r Brifysgol at ddibenion addysg a chymorth yn unig.

Atal

4.7 Mae gan y Pwyllgor Disgyblu'r awdurdod i atal y Myfyriwr sy'n Ymateb o'r Brifysgol am resymau disgyblu am gyfnod y mae'r Pwyllgor Disgyblu yn ei ystyried yn gyfiawn ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Gellir gosod amodau pan fydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn dychwelyd i astudio. Gall fod yn ofynnol i Fyfyrwyr sy'n Ymateb sy'n cael eu gwahardd dalu swm cymesur o ffioedd yn dibynnu ar asesiad o'r ffioedd a dalwyd eisoes a'r addysgu a dderbyniwyd eisoes. Gall unrhyw farciau sydd heb eu cadarnhau gan y byrddau asesu cyn yr ataliad gael eu dileu.

Diarddel

4.8 Mae gan y Pwyllgor Disgyblu'r awdurdod i ddiarddel y Myfyriwr sy'n Ymateb o'r Brifysgol am resymau disgyblu. Efallai y bydd gofyn i'r Myfyriwr sy'n Ymateb dalu swm cymesur o ffioedd yn dibynnu ar asesiad o'r ffioedd a dalwyd eisoes a'r addysgu a dderbyniwyd eisoes. Gellir dileu unrhyw farciau nad ydynt wedi'u cadarnhau gan y byrddau asesu cyn y diarddel.

Cymhwyso cosbau

4.9 Mae'r cosbau a amlinellir yn Adran Naw 'Canllawiau ar gyfer Cymhwyso Cosbau' yn enghreifftiol yn unig.

4.10 Gall achosion niferus neu ailadroddus o gamymddygiad fod yn fwy difrifol nag un weithred o gamymddygiad a gellir cymryd canfyddiadau blaenorol i ystyriaeth wrth benderfynu ar gosbau.

4.11 Gall cosbau gael eu rhoi ar unigolion sy'n ymateb sydd wedi graddio, os cyflawnwyd trosedd ganddynt tra oeddent yn fyfyrwyr yn y Brifysgol. Byddai hyn fel rheol ar ffurf

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

rhybudd ysgrifenedig ffurfiol a fyddai'n aros ar gofnod y Myfyriwr sy'n Ymateb am gyfnod penodol o amser.

ADRAN PUMP: LEFEL 1 – CAMYMDDYGIAD O NATUR LAI DIFRIFOL

5.1 Mae mân gamymddwyn yn weithred neu'n ymddygiad nad yw'n ddigon difrifol i fod yn gamymddwyn difrifol o dan y Weithdrefn hon. Rhoddir rhai enghreifftiau anghyflawn o fân gamymddwyn isod, a gallant gynnwys gweithredoedd a gyflawnwyd gan ddefnyddio technoleg, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag wyneb yn wyneb:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n achosi gofid neu drallod i unigolion eraill
- Difrod i eiddo heb fwriad maleisus
- Methiant i gydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig
- Methiant i roi enw a chyfeiriad i swyddog neu weithiwr yn y Brifysgol pan ofynnir yn rhesymol iddynt wneud hynny
- Gweithred/anwaith a achosodd neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar dir y Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigaréts mewn ardaloedd heb eu dynodi).

5.2 Rhaid i honiadau o gamymddygiad gael eu gwneud i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, ar y Ffurflen Honiad o Gamymddygiad cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r mater dan sylw ddigwydd. Gellir mynd at y Cod Ymddygiad, y Weithdrefn a'r ffurflenni ar y dudalen we ganlynol: https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/student-conduct/. Dylid darparu tystiolaeth, pan fo modd, i gefnogi unrhyw honiadau, a rhaid cyflwyno'r dystiolaeth mewn modd amserol.

5.3 Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael ei alw i gyfarfod gyda Deon y Gyfadran berthnasol (neu eu henwebeion priodol). Bydd aelod o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn mynychu fel Swyddog Achos (ond ni fydd yn gwneud y penderfyniad). Os yw'r myfyriwr yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd cynrychiolydd o'r cyflogwr hefyd yn cael ei wahodd i fynychu fel sylwedydd.

5.4 Gall Deon y Gyfadran berthnasol (neu'i enwebeion priodol) gyflwyno cosbau, os yn briodol, yn unol â'r manylion yn adrannau 4.1 i 4.5.

5.5 Gall Deon y Gyfadran berthnasol (neu'i enwebeion priodol) wneud cais am ymchwiliad i'r mater a godwyd, os tybir bod hynny'n angenrheidiol.

5.6 Bydd y canlyniad yn cael ei roi i'r Myfyriwr sy'n Ymateb o fewn pum niwrnod gwaith o'r cyfarfod. Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn rhoi gwybod i gyflogwr y Myfyriwr sy'n Ymateb.

5.7 Os rhoddir cosb, bydd nodyn o ganlyniad y cyfarfod yn cael ei ddal ar ffeil y Myfyriwr sy'n Ymateb, ond bydd yn cael ei ddileu pan fydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn gadael y sefydliad, os nad oes unrhyw achosion pellach o gamymddygiad.

5.8 Os na fydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn fodlon â'r canlyniad, gall gyflwyno cais am adolygiad yn amodol ar fodloni seiliau penodol, yn unol â'r manylion yn adran 7.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

5.9 Os na fydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cydymffurfio â'r gosb a roddwyd ar Lefel 1, gall Deon y Gyfadran (neu enwebai) roi cosb fwy difrifol neu gellir atgyfeirio i Lefel 2 o'r Weithdrefn hon.

ADRAN CHWECH: LEFEL 2 – CAMYMDDYGIAD O NATUR DDIFRIFOL

Adrodd am achosion o gamymddygiad

6.1 Diffinnir gweithred neu ymddygiad fel camymddwyn difrifol lle gallai achosi i'r Brifysgol gwestiynu gallu myfyriwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Siarter y Myfyrwyr a'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr. Rhoddir rhai enghreifftiau anghyflawn o gamymddwyn difrifol isod, a gallant gynnwys gweithredoedd a gyflawnwyd gan ddefnyddio technoleg, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag wyneb yn wyneb:

- Gweithredoedd brawychu, bwlio neu aflonyddu difrifol neu barhaus
- Ymosodiad corfforol
- Camymddwyn rhywiol
- Ymddygiad bygythiol, sarhaus neu anweddus difrifol
- Trin eraill yn wahaniaethol yn groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol neu bolisïau Urddas yn PDC
- Dwyn, twyll neu ffugio cofnodion
- Torri rheoliadau'r Brifysgol yn ddifrifol gan gynnwys y Rheoliadau Cyfrifiadura TG a'r Polisi Iechyd a Diogelwch
- Cario neu ddefnyddio arf ymosodol neu arf saethu
- Methiant i ddatgelu gwybodaeth berthnasol bwysig i'r Brifysgol fel sy'n ofynnol gan reoliadau/gweithdrefnau'r Brifysgol
- Gweithredoedd o fân gamymddwyn lluosog neu ailadroddus.

6.2 Rhaid gwneud yr honiadau yn ysgrifenedig gan ddefnyddio Ffurflen 2 Honiad o Gamymddygiad Myfyriwr Lefel 2 (mae ffurflenni ar gael trwy ddefnyddio'r ddolen yn adran 5.2). Dylid darparu tystiolaeth, pan fo modd, i gefnogi unrhyw honiadau, a rhaid cyflwyno'r dystiolaeth mewn modd amserol.

6.3 Os oes amheuaeth ynghylch ai Deon Cyfadran y Myfyriwr sy'n Ymateb yw'r unigolyn priodol i ymdrin â'r honiadau (e.e. pan fydd y digwyddiad yn cynnwys myfyrwyr o fwy nag un gyfadran, neu'n ymwneud â gwaith un o adrannau canolog y Brifysgol, neu pan fydd y digwyddiad wedi digwydd mewn Neuadd Breswyl), bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cynghori.

6.4 Bydd Deon Cyfadran y Myfyriwr sy'n Ymateb (neu enwebai), mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fel y bo'n briodol, yn ystyried natur a difrifoldeb yr honiadau gyda'r bwriad o benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad neu p'un a ddylid ymdrin â'r mater o dan Lefel 1 y Weithdrefn hon.

Cymryd camau rhagofalus at ddibenion ymchwiliad

6.5 Gellir cynnull Panel Asesu Risg i wneud argymhellion yng nghyd-destun diogelu'r[2] Myfyriwr sy'n Ymateb/Prentis/Myfyriwr Plismona Gweithredol, y Parti sy'n Adrodd, aelodau eraill o gymuned y Brifysgol neu enw da'r Brifysgol.

[2] The term safeguarding is used here to refer to the protection of health, well-being and rights of individuals.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

6.6 Os bydd achos yn un hynod frys neu sensitif, gall Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) gymeradwyo camau rhagofalus hyd nes y gall y Panel Asesu Risg gyfarfod.

6.7 Gellir cael rhagor o wybodaeth am y broses yn y Gweithdrefnau Asesu Risg.

Camymddygiad sydd hefyd yn drosedd

6.8 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i'w staff a'i myfyrwyr ac felly rhaid iddi gael gwybod am unrhyw weithgaredd troseddol honedig gan ei myfyrwyr. Os bydd myfyriwr, ar unrhyw adeg yn ystod ei ymrestriad, yn cael ei rybuddio, ei arestio neu'i gyhuddo am drosedd, neu'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd, bydd gofyn iddo/iddi roi gwybod am hyn ar unwaith a rhoi gwybod am gynnydd unrhyw achos troseddol i Ysgrifennydd y Brifysgol neu'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai). Os anfonir myfyriwr i sefyll ei brawf, rhaid i'r Ysgrifennydd y Brifysgol neu'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) gael gwybod beth sy'n digwydd ar bob lefel naill ai gan y myfyriwr neu ei gyfreithiwr/gynrychiolydd. Os dyfernir wedyn bod y myfyriwr yn euog o'r drosedd, rhaid rhoi gwybod am hyn hefyd, ynghyd â manylion unrhyw gosb neu ddedfryd a osodwyd. Bydd methiant i hysbysu'r Brifysgol am drosedd, gan gynnwys rhybuddiad neu gerydd, cyn gynted â phosibl ar ôl cael ei arestio, yn cael ei ystyried yn gamymddygiad.

6.9 Ar ôl derbyn cynnig o le, gofynnir i ymgeiswyr gysylltu ag Ymholiadau a Derbyniadau i ddatgelu unrhyw gollfarnau 'heb ddarfod' a chosbau cysylltiedig, a ystyrir yn berthnasol.

Collfarnau perthnasol yw'r rhai sydd â goblygiadau i ddyletswydd gofal y Brifysgol tuag at ddiogelwch ei myfyrwyr, ei staff a'i hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i euogfarnau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- trais;
- troseddau rhywiol;
- cyflenwi cyffuriau;
- arfau tân;
- llosgi bwriadol;
- terfysgaeth.

Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i ymgeiswyr sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr wahardd heb gollfarn. Mae'r rhestr wahardd yn cynnwys manylion unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed oherwydd ymddygiad yn y gorffennol.

Mae hyn oherwydd efallai y bydd angen i'r Brifysgol adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau ac amodau sydd wedi'u gosod.

Gall methu â datgelu gael ei ystyried yn gamymddwyn o dan y Weithdrefn hon. Ceir rhagor o wybodaeth ym mholisi Collfarnau Troseddol Ymholiadau a Derbyniadau.

6.10 Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd myfyrwyr yn rhoi gwybod i'r heddlu am honiad o drosedd; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, bydd y Brifysgol yn gwneud yr honiad ar ran yr Unigolyn sy'n Adrodd. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r heddlu am drosedd honedig yn erbyn dymuniadau'r Unigolyn sy'n Adrodd amdani os yw datgelu'r wybodaeth yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r Unigolyn sy'n Adrodd, neu bobl eraill, rhag niwed neu er mwyn atal trosedd arall. Wrth benderfynu a ddylid datgelu'r drosedd honedig ac wrth benderfynu pa

wybodaeth i'w datgelu, bydd y Brifysgol yn ystyried ei rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Diogelu Data/y Ddeddf Diogelu Data ac unrhyw niwed posibl y gall datgelu heb awdurdod ei achosi i'r Unigolyn sy'n Adrodd. Os bydd yr Unigolyn sy'n Adrodd yn penderfynu peidio â mynd at yr heddlu, bydd modd iddo/iddi ofyn i'r Brifysgol ystyried y mater o dan y Rheoliadau a'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr. Gall y Brifysgol, o'i gwirfodd ei hun, hefyd benderfynu rhoi'r Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr ar waith. O dan yr amgylchiadau hyn, ymdrinnir â'r mater fel achos posibl o dorri'r Rheoliadau hyn/y Weithdrefn hon ac nid fel trosedd.

6.11 Gall ymddygiad a allai fod yn drosedd, hefyd fod yn gamymddygiad, a byddai modd ymdrin ag ef felly o dan y Weithdrefn hon, ac o dan unrhyw broses droseddol yn ogystal, os yw'r ymddygiad hwnnw:

- wedi digwydd ar safle'r Brifysgol; a/neu
- wedi effeithio ar aelodau eraill o'r Brifysgol; a/neu
- wedi niweidio neu'n debygol o niweidio enw da'r Brifysgol; a/neu
- yn effeithio ar ffitrwydd i ymarfer y myfyriwr a/neu
- gallai achosi teimladau o fregusrwydd o fewn cymuned y Brifysgol

6.12 Mae'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol lle byddai'r camymddygiad honedig yn drosedd hefyd o dan gyfraith trosedd pe bai'n cael ei phrofi mewn llys barn:

a) Ni ellir cymryd unrhyw gamau disgyblu (heblaw am gamau rhagofalus – gweler adrannau 6.4 i 6.6) o dan reoliadau'r Brifysgol oni bai bod yr heddlu wedi cael gwybod am y mater a bod y Myfyriwr sy'n Ymateb wedi'i erlyn neu fod penderfyniad wedi'i wneud i beidio â'i erlyn; ar yr adeg honno, gallai'r Is-Ganghellor (neu enwebai) benderfynu a ellir cymryd camau disgyblu.

b) Os canfyddir bod y Myfyriwr sy'n Ymateb yn euog o gamymddygiad a'i fod hefyd wedi'i ddedfrydu gan lys troseddol mewn perthynas â'r un ffeithiau, ystyrir cosb y llys wrth benderfynu ar unrhyw gosb o dan reoliadau'r Brifysgol. Ni fydd angen i'r Brifysgol, fel arfer, ymchwilio ymhellach gan yr ystyrir bod yr euogfarn/rhybuddiad yn dystiolaeth bod yr ymddygiad wedi digwydd. Bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) ar y cyd â Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn penderfynu a oes angen ymchwiliad.

c) Pan fydd dedfryd o garchar o lai na chwe mis wedi'i gosod, bydd fel arfer yn ofynnol i'r Myfyriwr sy'n Ymateb roi'r gorau i'w astudiaethau am gyfnod y ddedfryd o garchar. Bydd Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol yn ystyried y dyddiad y caiff y Myfyriwr sy'n Ymateb ddychwelyd i'w astudiaethau, gan ystyried ei amgylchiadau unigol.

ch) Os yw'r ddedfryd o garchar yn fwy na 6 mis, neu'n hwy na hyd y cwrs sydd ar ôl, bydd y Brifysgol yn eu tynnu yn ôl. Gall y Myfyriwr sy'n Ymateb ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwn. Bydd y cais am adolygiad yn cael ei ystyried gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai) ac aelod o'r uwch reolwyr. Rôl y Panel Adolygu yw ystyried a oedd penderfyniad Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn gywir ar sail y rheoliadau cyfredol a'r dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd; ac i ystyried a allai unrhyw dystiolaeth newydd wrthdroi'r penderfyniad hwn. Os bydd gwahaniaeth barn rhwng y ddau aelod o'r Panel Adolygu, bydd y bleidlais fwrw gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai).

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

Ymchwiliadau i achosion o gamymddygiad

6.13 Bydd Swyddog Ymchwilio yn cael ei benodi gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, ar y cyd â Deon y Gyfadran berthnasol (neu enwebai). Bydd y Swyddog Ymchwilio fel rheol yn un o Swyddogion Ymchwilio Proffesiynol y Brifysgol. Os oes angen Swyddog Ymchwilio o'r gyfadran, byddant fel arfer yn dod o'r tu allan i'r ysgol lle mae'r myfyriwr yn astudio ac ni fydd ganddo/ganddi unrhyw wybodaeth flaenorol am yr achos. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Brifysgol benderfynu cyflogi ymchwilydd arbenigol o'r tu allan i'r Brifysgol.

6.14 Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael gwybod yn ysgrifenedig am natur yr honiadau a pha mor ddifrifol ydynt, ei fod yn destun ymchwiliad, ac yn nodi'r Swyddog Ymchwilio a fydd yn ymchwilio i'r achos yn ei erbyn.

6.15 Bydd Swyddogion Ymchwilio yn ymgymryd â hyfforddiant priodol a bydd yn derbyn canllawiau ysgrifenedig ar sut i gynnal ymchwiliadau.

6.16 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cynnal ymchwiliad i'r honiadau o fewn 30 diwrnod gwaith. Gellir ymestyn y cyfnod hwn drwy ddod i gytundeb â'r Myfyriwr sy'n Ymateb neu, mewn amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol.

6.17 Bydd unrhyw gyfarfodydd gyda'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael eu cynnal ar ei gampws, oni bai fod hyn yn amhriodol, oherwydd natur yr honiadau neu trwy ddulliau electronig, e.e., trwy fideo-gynadledda. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn gohebu â'r Unigolyn sy'n Ymateb mewn perthynas ag unrhyw oedi yn y broses.

6.18 Os bydd ymchwiliad yn dangos bod angen cyfeirio at y Weithdrefn Cymorth i Astudio, mae'n bosibl y bydd angen addasu natur a hyd yr ymchwiliad yn ei ffurf arferol, neu ohirio'r ymchwiliad tra'n disgwyl canlyniad yr ymchwiliadau o dan y Weithdrefn hon.

6.19 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd adroddiad y Swyddog Ymchwilio yn cael ei gyflwyno i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai). Bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn cysylltu ag Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai)/Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr, yn ôl yr angen. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes achos i'w ateb, ac os felly, p'un a oes gan y gyfadran ddigon o dystiolaeth yn barod i lunio casgliad ar yr achos, a chymhwyso cosb o dan lefel 1 y Weithdrefn hon neu p'un a ddylid cyfeirio'r achos at Bwyllgor Disgyblu.

Pwyllgor Disgyblu

6.20 Bydd Pwyllgor Disgyblu yn ystyried achosion difrifol o gamymddygiad gan fyfyrwyr. Bydd aelodaeth Pwyllgorau Disgyblu fel a ganlyn:

- un aelod o uwch reolwyr y Brifysgol (Cadeirydd);
- un aelod staff o'r Bwrdd Academaidd;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr neu enwebai.

Gwasanaethir gwrandawiadau'r Pwyllgor Disgyblu gan Ysgrifennydd, nad yw'n aelod ond a fydd yn bresennol drwy gydol y trafodion. Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yr Ysgrifennydd.

Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Disgyblu wedi ymwneud â'r achos/achosion o'r blaen ac ni fyddant wedi cael unrhyw gysylltiad â'r myfyriwr/myfyrwyr. Ni fydd cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr wedi cefnogi'r myfyriwr o'r blaen yn ystod yr achos.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

Hysbysir y Myfyriwr sy'n Ymateb am gyfansoddiad y Pwyllgor cyn i'r ddogfennaeth gael ei chylchredeg a rhoddir cyfle iddynt godi unrhyw bryderon mewn perthynas ag aelodaeth, er enghraifft os oes ganddynt sail i ystyried y gallai aelod fod yn rhagfarnllyd.

Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol yn y Brifysgol, bydd cynrychiolydd o'r cyflogwr hefyd yn cael gwahoddiad i fynychu fel sylwedydd.

6.21 Mae swyddogaethau'r Pwyllgor Disgyblu fel a ganlyn:

a) Ystyried adroddiadau gan Swyddogion Ymchwilio ynglŷn â honiadau difrifol o gamymddygiad gan fyfyrwyr.

b) Sefydlu ffeithiau'r achos, cyhyd ag y bo modd, a galw ar dystion pan fydd angen.

c) Ystyried cymryd camau priodol yn unol â'r manylion yn y rhestr gosbau.

ch) Cytuno nad oes unrhyw achos i'w ateb. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Brifysgol yn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, nad yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb wedi cael ei roi dan anfantais o ganlyniad i unrhyw gamau disgyblu neu waharddiad.

d) Rhoi gwybod am ei benderfyniad i'r Is-Ganghellor ac Ysgrifennydd y Brifysgol.

6.22 Dim ond ar ôl i gyfnod y cais am adolygiad ddod i ben y bydd cosbau, heblaw am wahardd a diarddel, yn cael eu rhoi.

6.23 Bydd y Pwyllgor Disgyblu fel arfer yn cael ei alw ynghyd o fewn 20 diwrnod gwaith o gyfeirio'r achos. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi'r dyddiad ar gyfer gwrandawiad y Pwyllgor Disgyblu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Gall y Brifysgol ymestyn yr amserlen hon mewn amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) lle mae myfyriwr wedi gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol. Os oes gan y Myfyriwr sy'n Ymateb reswm da dros newid y dyddiad, bydd y gwrandawiad yn cael ei aildrefnu unwaith yn unig. Rhaid i'r Myfyriwr sy'n Ymateb hysbysu'r Brifysgol o leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad gwreiddiol os yw am newid y dyddiad.

6.24 Os na fydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn dymuno mynychu'r gwrandawiad, neu ddim yn gallu mynychu, caiff ei gynnal yn ei absenoldeb; os felly, fodd bynnag, fe'i cynghorir yn gryf i ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig.

6.25 Mae myfyrwyr yn gallu galw, neu ofyn i Gwaith Achos Myfyrwyr wahodd tystion i gefnogi eu hachos. Rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr am unrhyw dystion a fydd yn bresennol o leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad. Mae'r myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw dystion y mae'n dymuno eu galw yn cael eu hysbysu am ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad neu os gwneir cais drwy Waith Achos Myfyrwyr, bydd Gwaith Achos Myfyrwyr yn sicrhau bod unrhyw dyst yn cael gwybod am y dyddiad, yr amser a lleoliad y gwrandawiad.

6.26 At ddiben y weithdrefn hon, a lle bo'n berthnasol, caiff y Myfyriwr sy'n Cofnodi ei ddosbarthu fel tyst. Gwahoddir y Myfyriwr sy'n Cofnodi i fynychu'r gwrandawiad. Fodd bynnag, nid oes angen iddynt fynychu ac o ganlyniad gallant wrthod unrhyw wahoddiad o'r fath.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

6.27 Gall y Brifysgol ei gwneud yn ofynnol i aelodau staff ac unrhyw bersonau eraill sy'n berthnasol i'r achos fynychu'r gwrandawiad fel tystion. Rhoddir gwybod i'r myfyriwr am enwau unrhyw dystion cyn y gwrandawiad.

6.28 Gellir cynnal y gwrandawiad wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig. Ni all y Myfyriwr sy'n Ymateb na'i dystion anfon unrhyw berson arall i fod yn bresennol ar eu rhan. Fodd bynnag, gallant ofyn am bresenoldeb trwy ddulliau electronig, e.e. trwy gynhadledd fideo. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno bod yn bresennol mewn gwrandawiad trwy ddulliau electronig hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifenedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Pan gytunir ar hyn, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor Disgyblu cyn y cyfarfod, ac yn hwyluso hyn gyda'r unigolion dan sylw.

6.29 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon copi o'r holl ddogfennaeth a gafwyd at y Myfyriwr sy'n Ymateb ac aelodau'r Pwyllgor Disgyblu o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

6.30 Gwahoddir y Myfyriwr sy'n Ymateb gyflwyno'i achos yn ysgrifenedig cyn y gwrandawiad; dylai'r datganiad hwn roi manylion am unrhyw ffactorau lliniarol y mae'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn dymuno i'r Pwyllgor Disgyblu eu hystyried. Cyfrifoldeb y Myfyriwr sy'n Ymateb yw darparu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig i gefnogi'i achos. Dylid anfon hwn at Ysgrifennydd y Pwyllgor Disgyblu o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd yr Ysgrifennydd yn dosbarthu deunydd ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Myfyriwr sy'n Ymateb o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

6.31 Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a natur yr honiad, a lle mae Cadeirydd y Pwyllgor Disgyblu yn ei ystyried yn briodol, gellir gwahodd y Parti sy'n Adrodd ac unrhyw berson arall y mae'r honiad yn effeithio arno i gyflwyno Datganiad Effaith.

Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn hawlio cyfrifoldeb, gellir darparu'r Datganiad Effaith i'r Myfyriwr sy'n Ymateb, a'i drafod gyda'r myfyriwr sy'n ymateb cyn cytuno ar y canlyniad a'r gosb.

Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn gwadu cyfrifoldeb, adolygir y Datganiad Effaith gan y Pwyllgor Disgyblu dim ond os yw'r honiad yn cael ei gadarnhau, a chyn penderfynu ar gosb, i gynorthwyo'r Pwyllgor i benderfynu ar gosb briodol. Os cyflwynir Datganiad Effaith a'i adolygu gan y Pwyllgor Disgyblu wrth benderfynu ar gosb, gellir darparu copi i'r Parti sy'n Adrodd gyda'r llythyr canlyniad.

6.32 Ni fydd y Pwyllgor Disgyblu yn derbyn deunydd ysgrifenedig nad yw hefyd wedi bod ar gael i'r Myfyriwr sy'n Ymateb cyn gwneud ei benderfyniad.

6.33 Bydd canlyniad y Pwyllgor Disgyblu yn cael ei roi i'r myfyriwr yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad trwy'r e-bost a/neu bost dosbarth cyntaf i gyfeiriad hysbys diwethaf y myfyriwr. Ystyrir bod dosbarthu yn y modd hwn yn ddigonol ac yn llwyr gyflawni'r ddyletswydd i hysbysu'r myfyriwr. Os bydd angen rhagor o wybodaeth ar y Pwyllgor er mwyn gwneud penderfyniad, rhoddir gwybod i'r myfyriwr am unrhyw oedi.

6.34 Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn rhoi gwybod i'w gyflogwr.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

ADRAN SAITH: LEFEL 3 – CAIS I ADOLYGU

Egwyddorion cyffredinol

7.1 Mae gan y Myfyriwr sy'n Ymateb yr hawl i ofyn am adolygiad yn erbyn y gosb a roddwyd ar Lefel 1 neu Lefel 2 y Weithdrefn hon.

7.2 Rhaid cyflwyno'r cais am adolygiad i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith o'r hysbysiad ffurfiol am ganlyniad Lefel 1 neu Lefel 2 y Weithdrefn hon.

Seiliau dros adolygiad

7.3 Gellir gwneud cais am adolygiad ar y seiliau canlynol:

a) Mae tystiolaeth neu amgylchiadau esgusodol newydd wedi dod i'r amlwg na fyddai'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn rhesymol fod wedi gallu rhoi gwybod amdanynt adeg y cyfarfod/gwrandawiad/ymchwiliad gwreiddiol. *(D.S. Ni dderbynnir rhesymau personol, teuluol neu ddiwylliannol sensitif fel rheswm da.)*

b) Roedd anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd y trafodion a oedd yn ddigon sylweddol i beri amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r un penderfyniad wedi'i wneud pe na baent wedi digwydd.

c) Bod y canfyddiadau a'r argymhellion yn anghymesur o ystyried amgylchiadau'r achos.

7.4 Cyfrifoldeb y Myfyriwr sy'n Ymateb wrth wneud cais am adolygiad yw dangos, yn ôl yr hyn sy'n debygol, fod tystiolaeth i ddangos bod un neu fwy o'r seiliau a nodir yn 7.3 yn berthnasol.

Ystyried y cais am adolygiad

7.5 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn ystyried cais y Myfyriwr sy'n Ymateb am adolygiad a gall ei wrthod heb wrandawiad o dan yr amgylchiadau canlynol:

a) Ni chafodd y cais am adolygiad ei gyflwyno mewn pryd.

b) Ni chyflwynwyd unrhyw seiliau pendant dros adolygiad.

c) Mae'r seiliau dros adolygiad yn flinderus neu'n wamal.

7.6 Os yw Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn ystyried nad oes unrhyw seiliau ar gyfer adolygiad, bydd Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol yn cael ei gyflwyno i'r Myfyriwr sy'n Ymateb.

7.7 Os bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn ystyried nad oes seiliau ar gyfer adolygiad, cyfeirir yr achos at Banel Adolygu.

7.8 Bydd penderfyniad Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn cael ei gyfleu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais am adolygiad.

7.9 Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn hysbysu cyflogwr y Myfyriwr sy'n Ymateb.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

Panel Adolygu

7.10 Bydd y Panel Adolygu yn cael ei alw ynghyd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i Ysgrifennydd y Brifysgol wneud penderfyniad i gyfeirio'r achos. Gellir ymestyn y cyfnod hwn drwy ddod i gytundeb â'r Myfyriwr sy'n Ymateb, neu, mewn amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol.

7.11 Bydd Panel Adolygu yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Is-Ganghellor (neu enwebai)
- Aelod o'r uwch reolwyr

Os bydd gwahaniaeth barn rhwng y ddau aelod o'r panel, bydd y bleidlais fwrw gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai).

Gwasanaethir y gwrandawiad gan Ysgrifennydd, nad yw'n aelod ond a fydd yn bresennol drwy gydol y trafodion. Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yr Ysgrifennydd.

Ni fydd aelodau'r Panel Adolygu wedi ymwneud â'r achos o'r blaen ac ni fyddant wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Myfyriwr sy'n Ymateb.

Os yw'r myfyriwr yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd cynrychiolydd o'r cyflogwr yn cael ei wahodd i fynychu fel sylwedydd hefyd.

7.12 Gall y Panel Adolygu benderfynu:

a) Y dylid cadarnhau canlyniad y Pwyllgor Disgyblu.

b) Na ddylid cadarnhau canlyniad y Pwyllgor Disgyblu a bod y:

i. Pwyllgor Disgyblu wedi gwneud camgymeriadau gweithdrefnol a/neu gamfarnau ac y dylid galw Pwyllgor Disgyblu newydd ynghyd i wrando ar yr achos o'r newydd, neu
ii. Bod canlyniad y Pwyllgor Disgyblu yn anghymesur ac y dylid ei newid am ganlyniad mwy cymesur

7.13 Bydd penderfyniad y Panel yn derfynol a bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael gwybod amdano o fewn cyfnod o 5 diwrnod gwaith yn dilyn y cyfarfod, drwy neges e-bost i'w gyfrif e-bost personol, a'i gyfrif e-bost Prifysgol. Yn ogystal, gellir anfon hysbysiad trwy'r dull postio mwyaf priodol, i'r cyfeiriad diwethaf a gofnodwyd ganddo. Ystyrir y bydd neges o'r fath yn ddigonol ac yn llwyr gyflawni'r ddyletswydd i hysbysu'r myfyriwr.

7.14 Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn brentis/myfyriwr Plismona Gweithredol, bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn rhoi gwybod i'w gyflogwr.

7.15 Os bydd yr adolygiad yn llwyddiannus, bydd y Brifysgol yn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, na roddwyd y Myfyriwr sy'n Ymateb dan anfantais yn sgil unrhyw gamau disgyblu neu waharddiad.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

ADRAN WYTH: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA) AR GYFER ADDYSG UWCH

8.1 Os bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn anfodlon â chanlyniad y Weithdrefn hon, gall, ar ôl derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i'r OIA.

8.2 Gellir cael manylion am yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

ADRAN NAW: CANLLAWIAU AR GYFER CYMHWYSO COSBAU

TRAMGWYDD DISGYBLU	ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIAD ANNERBYNIOL	ENGHREIFFTIAU O GOSBAU	CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU'R GOSB
Camymddygiad Corfforol	• Cyswllt corfforol digroeso, gan achosi anaf: • Dyrnu • Gwthio • Pwnio • Cicio • Taro • Brathu • Tynnu gwallt • Sylwadau neu ystumiau sarhaus neu fygythiol • Dilyn person arall dro ar ôl tro heb reswm da • Anafu un person neu grŵp yn fwriadol gan berson neu grŵp arall trwy ddulliau corfforol, geiriol, di-eiriau neu seicolegol	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol
	• Yn debygol o achosi anaf, er na wnaeth, drwy'r canlynol: • Gwthio • Pwnio • Tynnu gwallt • Sylwadau neu ystumiau sarhaus neu fygythiol • Dilyn person arall dro ar ôl tro heb reswm da • Anafu un person neu grŵp yn fwriadol gan berson neu grŵp arall trwy ddulliau corfforol, geiriol, di-eiriau neu seicolegol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Camymddygiad Rhywiol	• Cael cyfathrach rywiol neu gyflawni gweithred rywiol heb gydsyniad	• Diarddel • Gwahardd/atal	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn

PUBLIC / CYHOEDDUS

	• Ceisio cael cyfathrach rywiol neu geisio cyflawni gweithred rywiol heb gydsyniad • Tynnu ffotograffau rhywiol o rywun arall heb gydsyniad, er enghraifft tynnu llun i fyny sgert • Rhannu deunyddiau rhywiol preifat rhywun arall heb gydsyniad a/neu olygu delweddau i'w gwneud yn rhywiol eglur • Anfon ffotograffau/deunyddiau amhriodol • Cusanu heb gydsyniad • Cyffwrdd yn amhriodol drwy ddillad heb gydsyniad • Dangos organau rhywiol yn amhriodol i rywun arall • Dilyn person arall gyda bwriad rhywiol dro ar ôl tro • Gwneud sylwadau nas dymunir o natur rywiol • Paratoi i bwrpas rhyw • Gorfodaeth neu fwlio ag elfennau rhywiol • Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol	• Cyfyngiadau/amodau • Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	perthyn iddi
	• Gwneud sylwadau nas dymunir o natur rywiol • Bygythiadau i rannu sibrydion neu ffotograffau rhywiol • Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Ymddygiad Ymosodol	• Bygythiadau i frifo rhywun arall • Ymgymryd ag unrhyw weithgaredd neu ymddygiad sy'n groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol neu ei pholisïau Urddas wrth	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

	Astudio/Urddas yn y Gwaith, gan gynnwys gweithredoedd o gasineb hiliol, eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu frawychiaeth, gan gynnwys radicaleiddio neu ddenu pobl eraill i ymgymryd â gweithgareddau/ymddygiadau o'r fath a sylwadau ymosodol yn ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, hil, beichiogrwydd, priodas/partneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, anabledd neu oedran unigolyn • Gweithredu mewn ffordd fygythiol a gelyniaethus • Dilyn rhywun arall yn rheolaidd heb reswm da • Honiadau maleisus neu flinderus yn erbyn aelodau eraill o gymuned y Brifysgol sy'n cael effaith sylweddol		
	• Honiadau maleisus neu flinderus yn erbyn aelodau eraill o gymuned y Brifysgol sy'n cael effaith fach • Defnyddio iaith amhriodol • Cysylltu'n rheolaidd â rhywun arall (dros y ffôn, drwy e-bost neu neges destun, neu ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol) yn erbyn dymuniadau'r person arall • Dilyn rhywun arall yn rheolaidd heb reswm da	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Difrod i Eiddo	• Achosi difrod sylweddol yn faleisus neu'n fwriadol i eiddo'r Brifysgol neu eiddo myfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

		• Costau – gofyniad i wneud iawn am y difrod a achoswyd ar eu traul eu hunain	
	• Achosi difrod bach i eiddo'r Brifysgol neu eiddo myfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Cymryd neu Ddefnyddio Eiddo heb Awdurdod	• Mynediad heb ei awdurdodi i safle'r Brifysgol neu ddefnydd heb ei awdurdodi ohono • Cymryd eiddo rhywun arall heb ei ganiatâd • Gwneud recordiadau heb eu hawdurdodi a'u huwchlwytho i gyfryngau cymdeithasol gan gael effaith fawr	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol
	• Camddefnyddio eiddo'r Brifysgol (er enghraifft, cyfrifiaduron a chyfarpar labordy) • Cymryd eiddo rhywun arall heb ei ganiatâd • Gwneud recordiadau heb eu hawdurdodi a'u huwchlwytho i gyfryngau cymdeithasol gan gael effaith fach	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Achosi Pryder Iechyd neu Ddiogelwch	• Gweithredu/diffyg gweithredu a achosodd neu a allai fod wedi achosi difrod difrifol ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, ymyrryd ag offer diffodd tân fel nad ydynt yn gweithio neu feddu ar/cyflenwi cyffuriau rheoledig) • Cario arfau posibl, er enghraifft cyllyll, tra byddant ar gampws y Brifysgol.	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol

PUBLIC / CYHOEDDUS

	• Gweithredu/diffyg gweithredu a achosodd neu a allai fod wedi achosi pryder iechyd a diogelwch ar safle'r Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigaréts mewn ardaloedd heb eu dynodi) • Cario arfau posibl, er enghraifft cyllyll, tra byddant ar gampws y Brifysgol.	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi
Rhwystro Gweithredol	• Gweithredu/diffyg gweithredu/datganiad y bwriedir iddo dwyllo'r Brifysgol[3] • Tarfu ar weithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu mewn mannau eraill • Tarfu ar swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu weithiwr y Brifysgol neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol • Llwgrwobrwyo neu geisio llwgrwobrwyo aelod o staff y Brifysgol • Methu cydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig.	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol
	• Ymyrraeth amhriodol â gweithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar eiddo'r Brifysgol neu mewn mannau eraill • Ymyrraeth amhriodol â swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu weithiwr y Brifysgol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi

[3] Os cyflawnir gweithred i sicrhau mynediad i'r Brifysgol, e.e. ffugio dogfennau, ac os nad yw credyd wedi'i ddyfarnu, ymdrinnir â hyn drwy gyfrwng y gweithdrefnau derbyn. Os yw credyd wedi'i ennill, ymdrinnir â'r mater drwy gyfrwng y Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PUBLIC / CYHOEDDUS

	neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol • Methu cydymffurfio â chais rhesymol unigolyn awdurdodedig • Methu rhoi eu henw a chyfeiriad i swyddog neu weithiwr y Brifysgol pan ofynnir yn rhesymol iddynt wneud hynny gan y swyddog neu'r aelod staff hwnnw wrth gyflawni ei ddyletswyddau		
Niwed i Enw Da	• Ymddygiad sydd wedi achosi neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol	• Diarddel • Gwahardd/atal • Cyfyngiadau/amodau	Pwyllgor Disgyblu'r Brifysgol
	• Ymddygiad sydd wedi neu a allai fod wedi achosi niwed i enw da'r Brifysgol	• Rhybudd ffurfiol • Ymddiheuriad ysgrifenedig	Deon y gyfadran y mae'r myfyriwr yn perthyn iddi